

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Gorffennaf, 2025, 2.00 pm

CYNGHORWYR Cynghorydd Sirol Phil Murphy (Cadeirydd)
YN Cynghorydd Sirol Dale Rooke (Is-Gadeirydd)
BRESENNOL:

Cynghorydd Sirol: Fay Bromfield, Rachel Buckler, Emma Bryn,
Jan Butler, John Crook, Tony Easson, Steven Garratt,
Meirion Howells, Su McConnel, Jayne McKenna, Maureen Powell,
Sue Riley, Ann Webb

SWYDDOGION YN BRESENNOL:

Philip Thomas	Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Andrew Jones	Development Management Area Team Manager
Joanne Chase	Cyfreithiwr a Phennaeth Cyfraith Fasnachol
Richard Ray	Paralegal
Richard Williams	Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorydd Sirol Jill Bond

1. Ethol Cadeirydd.

Fe wnaethom ethol y Cynghorydd Sirol Phil Murphy yn Gadeirydd.

2. Penodi Is-gadeirydd.

Fe wnaethom benodi'r Cynghorydd Sirol Dale Rooke yn Is-gadeirydd.

3. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

4. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio dyddiedig 6^{ed} Mai 2025 fel cofnod cywir.

5. Cais DM/2025/00106 - Cynnig: Addasu amodau 6 (newid defnydd i ganiatáu cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant) a 7 (newid amser cychwyn rhwng 9am ac 8am) ar ganiatâd DC/2012/00317. Amodau wedi'u haddasu: Adran 6 - Hoffai Dŵr Cymru allu defnyddio'r ystafell gyfarfod i gynnal cyfarfodydd a sesiynau hyfforddiant mewnol ac allanol heb yr angen i fod yn gysylltiedig â chwaraeon dŵr. Adran 7 - Hoffai Dŵr Cymru allu ei ddefnyddio o 8am. Adran 6 - Ystafell gyfarfod i'w defnyddio ar gyfer cyfarfodydd, cyfweiliadau a sesiynau hyfforddiant. Dim cerddoriaeth nac alcohol. Adran 7 - Ystafell gyfarfod i'w defnyddio rhwng 8:00am a 9:00pm. Cronfa Ddŵr Llandegfedd, Heol y Parc, Coed y Paen Sir Fynwy NP4 0SY.

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a'r ohebiaeth hwyr yr argymhellwyd eu cymeradwyo, yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Gorffennaf, 2025, 2.00 pm

<https://www.youtube.com/live/fXA46ue2odk?si=lq9zB4-SE6M6Vp8o&t=291>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd y cais gan y Cynghorydd Sirol Su McConnel, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Maureen Powell, y dylid cymeradwyo cais DM/2025/00106 yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad, gyda'r geiriad yn y frawddeg olaf o amod 6 yn cael ei ddiwygio, fel a ganlyn:

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd yr adeilad ar gael fel safle trwyddedig nac i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid	-	10
Yn erbyn	-	5
Ymatal	-	0

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynom fod cais DM/2025/00106 yn cael ei gymeradwyo yn amodol ar yr amodau a amlinellir yn yr adroddiad gyda'r geiriad yn frawddeg olaf o amod 6 yn cael ei ddiwygio, fel a ganlyn:

Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd yr adeilad ar gael fel safle trwyddedig nac i'w ddefnyddio gan y cyhoedd yn gyffredinol.

6. Cais DM/2024/01294 - Cadw wal gynnal a theras/patio (fel y'i hadeiladwyd) a newid defnydd tir amaethyddol i gwrtil preswyl. Tŷ'r Berllan, Llangwm i Fferm Nantygelli, Llangwm, Sir Fynwy, NP15 1HB.

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod cais DM/2024/01294 wedi'i dynnu'n ôl er mwyn caniatáu cynnal ymgynghoriad pellach. Byddai'r cais yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Cynllunio Awst 2025, i'w ystyried.

<https://www.youtube.com/live/fXA46ue2odk?si=GzMfkV0gMi-MZLn&t=2659>

7. Cais DM/2022/01511 - Newid defnydd o dir preswyl gwag i dwristiaeth ar gyfer gwersylla/glampio. Adeiladu cyfleusterau golchi ychwanegol at y glampfa. Adeiladu lloches maes i anifeiliaid. Swallows Nest, Tŷ'r Pwll, Parc Llettis Road, Hardwick, Y Fenni, NP7 9AB.

Gwnaethom ystyried yr adroddiad ar y cais a'r ohebiaeth hwyr yr argymhellwyd ei gymeradwyo, yn amodol ar yr amodau fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad.

<https://www.youtube.com/live/fXA46ue2odk?si=w7lsuuG85z0UPle2&t=2673>

Wrth nodi manylion y cais a'r safbwyntiau a fynegwyd, cynigiwyd gan y Cynghorydd Sirol Jayne McKenna ac eiliwyd gan y Cynghorydd Sirol Ann Webb y dylid gohirio ystyried cais DM/2022/01511 tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio ynghyd â'r rhesymau dros wrthod.

Ar ôl cael ei roi i'r bleidlais, cofnodwyd y pleidleisiau canlynol:

O blaid gohirio	-	14
Yn erbyn gohirio	-	0
Ymatal	-	0

CYNGOR SIR FYNWY

Pwyllgor Cynllunio
Neuadd Y Sir, Y Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA
Dydd Mawrth, 1af Gorffennaf, 2025, 2.00 pm

Cafodd y cynnig ei dderbyn.

Penderfynom fod ystyried y cais DM/2022/01511 yn cael ei ohirio i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynllunio sydd ar gael gyda'r rhesymau dros wrthod.

8. ER GWYBODAETH - Yr Arolygiaeth Gynllunio - Penderfyniadau o ran Apeliadau a Dderbyniwyd:

<https://www.youtube.com/live/fXA46ue2odk?si=l7HIJk0ZhLCgsnS-&t=5960>

8.1. Yng nghefn 65 Main Road, Porth Sgiwed, Sir Fynwy, NP26 5UG.

Fe wnaethom dderbyn adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad â safle a gynhaliwyd yng nghefn 65 Main Road, Porth Sgiwed, Sir Fynwy ar 16^{eg} Ebrill 2025.

Nodom fod yr apêl wedi'i gwrthod.

8.2. Gorsaf Betrol Larkfield, Heol Casnewydd, Cas-gwent NP16 5YS.

Fe wnaethom dderbyn adroddiad yr Arolygiaeth Gynllunio a oedd yn ymwneud â phenderfyniad apêl yn dilyn ymweliad safle a gynhaliwyd yng Ngorsaf Betrol Larkfield, Heol Casnewydd, Cas-gwent ar 5^{ed} Mehefin 2025.

Nodwyd bod yr apêl wedi'i chaniatáu, a rhoddwyd caniatâd penodol ar gyfer Codi Arddangosfa Hysbysebu Fformat Bach D6 yng Ngorsaf Betrol Larkfield, Heol Casnewydd, Cas-gwent NP16 5YS, fel y ceisiwyd amdano. Mae'r caniatâd am bum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn ac mae'n ddarostyngedig i'r pum amod safonol a nodir yn y Rheoliadau a'r amodau ychwanegol a nodir yn yr Atodlen.